Archifdy Ceredigion
Cylchlythyr Gŵyl Mihangel 1999

Newyddion Swyddfa

Croeso i drydydd cyhoeddiad cylchlythyr Archifdy Ceredigion.

Mae'r haf wedi mynd heibio ac mae'r swyddfa yn dechrau denu ymwelwyr hydref, nifer ohonynt yn fyfyrwyr sydd yn hyfforddi i fod yn archifwyr. Byddem yn falch gweld rhagor o ymwelwyr yn yr haf ond mae nifer o'n ymchwilwyr rheolaidd yn brysur gyda'u gerddi, gwyliau a'u teuluoedd ar yr adeg honno, ac mae'r mwyafrif o fyfyrwyr yn dilanmu yn ystod misoedd yr haf er mwyn edrych am waith neu wyliau tramor.

Bu adegau cyffrous yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf. Cafodd y Gynorthwywraig Gynorthwyol, Glenys ei chyfweld ar gyfer rhaglen S4C Digidol "Wedi Cinio" ar ddiwrnod gwyllt a gwyntog yng Nghlwb Golff Aberystwyth, a gofynnwyd i'r archifydd Helen ymddangos (gyda map hen iawn) mewn ymchwiliad cyhoeddus yng Nghei Newydd. Cynhaliom arddangosfa yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanbedr Pont Steffan, ac arddangosfa fechan ym mhenwythnos y Gymdeithas Fictorianaidd yn Aberystwyth. Bu sawl ymweliad â chlybiau a chymdeithasau lleol er mwyn siarad am ein gwaith a bu pob un ohonynt yn achlysur difyr iawn i'r siaradwyr! Cynhaliwyd cyfres ar y cyd o ddosbarthiadau hanes lleol yn Aberaeron, a bonws ychwanegol oedd tywydd hyfryd canol haf. Mae 'r Gynorthwywraig Archifau, Gwyneth wedi gwneud enw iddi ei hun am wneud gwaith yr adran archifau modern swnio yn hwyl, ac yn awr y mae'n ffurfio rhan reolaidd o gyflwyno myfyrwyr newydd i'r pwnc.

Bu gennym dri gweithiwr gwirfoddol yn y swyddfa yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ac maent wedi helpu gyda phrosiectau sylweddol yn yr archifdy: Gordon, sydd wedi gweithio ei ffordd drwy bapurau Sue Passmore ynglŷn â Chei Newydd, ac sydd wedi gwneud rhestr ragarweiniol ar ein cyfer (tra'n cael llawer iawn o wybodaeth ynglŷn â hanes Cei Newydd a'r ardal oddi amgylch!); Matt, sydd yn dechrau ar gwrs Rheoli Archifau yn y brifysgol yr hydref hwn, ac sydd wedi rhestru ymron i 1500 o ffeiliau archifau modern tra'i fod gennym; ac Eulonwy, a gynhyrchodd gyfarwyddyd lleoli ar gyfer ein 5,000 o focsys, ac sydd yn awr yn rhoi'r data ar y cyfrifiadur i ni.

Dychwelwyd tri map oddi wrth ein gwarchodwr, ac maent yn barod i'w defnyddio. Mae yna ddau fap degwm (ar gyfer plwyfi Silian a Llandysul) a map o ran o Stad Derry Ormond ym 1868. Pan brynwyd y ddau fap degwm, roedd un yn fregus iawn, ac roedd y llall â thyfiant o falltod du trwchus arno, felly y mae hi'n hyfryd eu gweld yn lân, wedi eu cryfhau ac yn barod i'w defnyddio.

Yr ydym wedi prynu gorchuddion ar gyfer dyddlyfrau ysgolion a chofrestrau mynediad, a fydd yn gymorth i ddiogelu'r dogfennau wrth iddynt gael eu storio. Gwelwn hefyd fod chwilwyr hyd yn oed yn fwy gofalus gyda dogfennau a gyflwynir iddynt sydd wedi eu pacio'n ofalus. Os ydym ni yn gwneud ymdrech, yna y mae nhw'n gwneud yr un peth.

Yr ydym hefyd wedi cyflwyno y "cliceri" bychain hynny i'r ystafell chwilio er mwyn ceisio rhoi cyfrif mwy manwl am y nifer o weithiau y defnyddir microffilmiau a *microfiche*. Fel y tybiem yr oeddem yn arfer amcangyfrif yn rhy isel o lawer y nifer a ddefnyddiwyd, a cheisiwn gynnwys y manylion hyn yn yr ystadegau misol a gynhyrchir gennym. Os ydych yn clywed sŵn clicio wrth i chi wneud eich gwaith ymchwil, gellir eich sicrhau nad camera cyfrinachol mohono, dim ond un ohonom ni yn cofnodi microffilm arall yn dod o'i focs.

Y"Capsiwl Amser"

Ychwanegiad diweddar i'n casgliadau fu'r hyn a elwir yn"gapsiwl amser" St Paul. Mae'r capel Methodistaidd Calfinaidd Cymreig, a leolir ar ben ucha'r Stryd Fawr yn Aberystwyth ac a drawsnewidiwyd yn far gwin yn ddiweddar wedi ei ailenwi yn yr "Academi". Wrth wneud atgyweiriadau a newidiadau darganfu gweithwyr botel wydr gyda thopyn arni wedi ei gosod y tu ôl i un o'r cerrig sylfaen ym 1878.

Roedd y botel yn gyfan a'r cynnwys wedi ei ddiogelu yn dda iawn. Symudwyd hi gan y dynion a'i darganfu a chyflwynwyd popeth i'r archifdy. Roedd yna ddau gyfnodolyn Methodistaidd ar gyfer y mis y gosodwyd y garreg, rhestr mewn llawysgrifen o ymddiriedolwyr y capel, poster yn hysbysebu'r seremoni gosod carreg ac amserlen o'r cylch pregethu lleol. Nid oes un o'r rhain yn arbennig o werthfawr, ac y mae'n eithaf posibl mai'r rhestr o ymddiriedolwyr yn unig sydd yn unigryw, ond gyda'i gilydd y maent yn ffurfio darlun o adeg diddorol yn hanes y dref, ac yn hanes Methodistiaeth Calfinaidd lleol. Mae gan y poster, a'i ddatganiad o orymdaith o'r hen gapel i safle'r un newydd a'r te i ddilyn

ryw naws ralio sydd yn huawdl a braidd yn ingol mewn cyd-destun modern.

Ar adegau tawel yn y swyddfa (!) mae fy nghydweithwyr a minnau yn ceisio ymgymryd â'r ymarfer syml o gyplysu'r rhestr o ymddiriedolwyr gyda manylion o gyfrifiad 1871 a 1881, fel y gallwn ffurfio darlun braidd yn well o'r adeg honno yn hanes y capel.

Ar yr adeg hon cyn y Mileniwm pan mae nifer o unigolion a sefydliadau'n meddwl am gapsiwl amser a beth i roi ynddynt, mae'n ddiddorol a pherthnasol i adlewyrchu ar yr enghraifft hon sydd ychydig dros gan mlwydd oed. Efallai mai'r penodoldeb sydd yn gwneud y cynnwys yn ddiddorol; cynhwysodd y pobl a osododd y garreg sylfaen gyda'r botel y tu ôl iddo yr hyn a ystyrient hwy yn berthnasol iddynt, yn y cyd-destun hwnnw ar yr adeg honno.

Mae'r erthygl hon gan Gwyneth Roberts, a fu'n gweithio yn y swyddfa yn Aberystwyth ers 1990. Nid yw Gwyneth ei hun yn dod o Geredigion, ond roedd rhai o'i chyn-dadau yma, fel y darganfyddwch wrth ddarllen ymlaen.

Derbyniadau Diweddar
Bu nifer o ychwanegiadau nodedig i'n casgliadau:

Derb. 1128 Dyddlyfr ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Llangeitho 1953 - 1988

Derb. 1129 "Passmore Papers": y papurau gwaith, nodiadau, dogfennau a'r effemera a grewyd ac a gasglwyd gan Mrs.S.C.Passmore (awdur *Farmers and Figureheads* a gweithiau eraill) ac sydd yn ymwneud ag ardal Cei Newydd.

Derb. 1131 &1132 Cofnodion Cymdeithas Sifig Aberystwyth 1977 - 1989 (gan gynnwys cofnodion, nodiadau a lluniau o'r ymgyrch)

Derb. 1143 "Capsiwl Amser St Paul" 1878 (gweler nodiadau mewn rhannau eraill o'r cylchlythyr)

Derb. 1144 "Papurau Coleg yr Iesu" o'r casgliadau o Goleg yr Iesu Rhydychen, gan gynnwys gweithredoedd teitl a gohebiaeth o'r ail ganrif ar bymtheg, y ddeunawfed ganrif a'r

bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd yn ymwneud yn bennaf â Llanddewi Brefi, a dogfennau degwm ar gyfer Llandysul o'r ugeinfed ganrif.

Derb. 1145 Mapiau Morol o'r Bwrdd Masnach (mapiau yn ymwneud â blaendraeth y Goron a diogelwch mordwyo mewn dŵr lleol) a drosglwyddwyd o'r Swyddfa Archifau Cyhoeddus. 1860 - 1970.


New Welsh Wesleyan Chapel
Aberystwyth
List of the Trustees
October 31st 1871
Thomas Hugh Jones Painter &c
Thomas Collins, junr Ironmonger
John Mathias, Painter
Richard Watkins, Master Mariner
Daniel Morgans, Insurance Agent
John Thomas, Retired Master Mariner
James Holesley Jones Bank Clerk
John Williams Esq Victoria House
Edward Edwards (Ar Mynydd)
James Fisher, Carrier
David Hopkins late of Church Street
William Rowlands Cabinet Maker
William Jones (Cnonium) Master Mariner
Thomas Jones, Master Mariner
Richard Evans, Tailor
Owen Stephens, (Senior) Shoemaker
William Jenkins, Tailor
Thomas Hamilton Lewis, Joiner & Budge Street
Edward Jones Lewis, Joiner
David Lloyd, Draper
Robert Herrick, Letter Carrier
David Rees Jones, Shoemaker
Rev James Jones.
Richard Hughes,
Lewis Jones, Factory Llanbadarn
Evan Jones, Solicitors Clerk (Lawlaw)
Rev James Pilchard - Superintendent of Circuit

Rhestr o ymddiriedolwyr Capel Methodistaidd Calfinaidd Cynmraeg St. Paul (o'r "Capsiwl Amser") Hydref 1878

A oedd Mamgu yn Danwraig ?

Pan ddaw pobl i mewn i'r Archifdy yn y lle cyntaf i ddechrau olrhain eu hanes teuluol yr ydym yn eu cynghori yn gyffredinol i ddechrau gyda'r ffurflenni cyfrifiad a'r cofrestrau plwyf. Mae nifer o'n ymchwilwyr yn hynod llwyddiannus gyda dull uniongyrchol o wneud pethau. Os yw eich teulu wedi aros yn yr un ardal am sawl cenhedlaeth ac wedi addoli yn yr un eglwys plwyf yna y mae'n bosibl gwibio drwy'r canrifoedd yn hawdd iawn. I rai ohonom fodd bynnag nid yw pethau mor syml ac fe'n gorfodir ni i gymryd ffordd hwy ond efallai mwy diddorol o ddod o hyd i'r un ffeithiau. Mae hyn yn arbennig o wir os ydych yn perthyn i deulu sydd yn hoffi adrodd chwedlau; gall didoli'r gwir o chwedl sydd wedi ei brodio fwyfwy bob tro y caiff ei hadrodd fod yn waith caled iawn.

Hysbyseb gwesty'r Waterloo allan o *The Gossiping Guide to Wales c. 1905*

Aberystwyth.

ABERYSTWYTH HYDRO HOTEL,

"The Waterloo."

FACING THE SEA.

Finest Position on the Promenade.

This Popular Establishment has again been enlarged, having now Accommodation for 200 Guests.

Magnificent Public Rooms. Drawing Room. Hall Lounge. Recreation and Smoking Rooms, all facing the Sea.

EXCELLENT CUISINE. BILLIARDS.

The Hydro annexe just added is fitted up with Dowsing's Electric Radiant Heat and Light, and all the most Modern Electric Baths, as recommended by the Medical Profession.

HOT AND COLD SEA BATHS,

Sea Water being pumped daily from the sea into the Hydro.

The Hotel is heated in Winter by patent Radiators.

Illustrated Tariff . . . on Application to Manager.

6

Er i mi gael fy ngeni a'm magu yn Sir Amwythig mae hanner fy nheulu yn dod yn wreiddiol o Sir Aberteifi felly pan ddeuthum i weithio yn yr Archifdy ymddangosai yn gyfle delfrydol i edrych i mewn i'w hanes. Gwn i'm mamgu a'm tadcu ar ochr fy mam gyfarfod yng Ngwesty'r Waterloo lle yr oedd fy mamgu yn weinyddes. Ar yr adeg hon y Waterloo oedd un o'r gwestai mwyaf a mwyaf poblogaidd yn Aberystwyth. Yn anffodus, llosgwyd ef i'r llawr ym 1919 o dan amgylchiadau braidd yn anesboniadwy. Yn ôl chwedl deuluol roedd fy nhadcu, plismon ifanc ar y pryd wedi ei swyno cymaint gan fy mamgu fel yr oedd yn canu cloch am wasanaeth ystafell yn barhaus, fel y blinodd arno a'i orchymyn i adael. Pan oeddwn yn blentyn yr oedd gennym lwy de wedi ei stampio ag enw'r gwesty a dywedodd fy ewyrth wrthyf mai fy mamgu a losgodd y 'Waterloo' i'r llawr, gan gipio'r llwy o'r fflamau wrth ddianc o'r fan lle gyflawnodd y drosedd. Gwnaeth y stori hon gryn argraff arnaf; dynes fechan oedd fy mamgu ond yr oedd yn ffyrnig iawn ac ni ymddangosai llosgi yn anghydnaws â'i chymeriad! Mae'n rhaid fy mod yn blentyn hawdd iawn fy nhwyllo gan i'r un ewyrth ddweud wrthof ei fod ym materion crefydd yn ''Ironistic Galvinist'' ac aeth blynyddoedd heibio cyn i mi ddeall mai jôc ydoedd.

Hyd yn oed fel oedolyn yr oeddwn yn rhyfedd o siomedig i ddeall ar yr adeg pan oedd y 'Waterloo' yn wenfflam roedd fy mamgu a fy nhadcu yn briod ac yn byw yn Aberhonddu. Yn rhyfedd ddigon, yr wyf ers hynny wedi cwrdd â merch hyfryd ac ymron yn sicr gwnaeth ei mamgu losgi'r gwesty i'r llawr - ond roedd honno yn stori arall.

Nid oes gennyf syniad yn union pa bryd y priododd fy mamgu a fy nhadcu. Gwn iddynt briodi rhywle yn Aberystwyth, naill ai mewn capel neu mewn gwasanaeth sifil. Gwrthododd rhieni fy nhadcu fod yn bresennol yn y briodas ond heriodd unig chwaer fy nhadcu hwy ac aethon. Roedd fy hen fodryb yn ddisgybl-athro yn ysgol Llancynfelyn ac yno mewn dyddlyfr ysgol gwelais gofnod am 3 Hydref 1910 sydd yn cadarnhau ei bod yn absennol ar y diwrnod hwnnw er mwyn bod yn

bresennol ym mhriodas ei brawd.

Cyflogwyd rhieni fy nhadcu ym Mhlas Gwynfryn yn Llancynfelyn, ystad deuluol William Basil Tickell Jones, Esgob Ty Ddewi ar y pryd. Dywedodd fy mam mai fy hen dadcu, George Newell,oedd rheolwr yr ystad, a'i wraig Martha oedd ceidwad gwisg yr esgob. Y mae gennyf eu tystysgrif priodas sydd yn nodi iddynt briodi ym Mryste ym 1886 a byddwn wedi tybio eu bod yng Ngwynfryn erbyn amser cyfrifiad 1891 ond nid oes unrhyw sôn amdanynt. Mae'r tystysgrif yn nodi enw tad George Newell sydd yn creu amheuaeth ynglŷn â chred fy mam iddo gael ei ddarganfod ar y trothwy gan ddwy hen ferch yn Great Malvern, ac iddynt ei godi fel eu plentyn hwy eu hunain. Fodd bynnag, gan i'r wybodaeth hon ddod oddi wrth fy mam ac nid fy ewyrth efallai bod gronyn o wirionedd ynddo yn rhywle a gobeithiaf ddod o hyd iddo pan ryddheir cyfrifiad 1901.

Martha Newell (hen fodrib Gwyneth) disgybl blaenllaw yn ysgol Llancynfeyn tan 1915

Yn ffodus dengys cofnodion ysgol Llancynfelyn fod fy nhadcu a'i chwaer wedi cofrestru yno ym 1896 ar ôl iddynt fynychu ysgol breifat yn flaenorol. Er nad oedd hyn o gymorth i wybod eu man geni rhoddwyd i mi eu dyddiad geni o leiaf, rhywbeth na wyddwn yn flaenorol.
Gallaf olrhain gyrfa fy hen fodryb drwy ddyddlyfrau ysgol Llangynfelyn; o'i phenodiad fel monitor ar 17 Mehefin 1903 nes iddi adael ar Hydref 1 1915. Ym mis Gorffennaf 1914 ymddiswyddodd pan ofynnwyd iddi gymryd gofal am wnio yn Safonau 1 i V111 ond perswadiwyd hi i ddychwelyd gan y Prifathro. Rhoddir cnawd ar esgyrn sychion ei gyrfa gan y manylion cymdeithasol a gynhwysir yn y dyddlyfrau. Mae prifathrawon dilynol wedi rhoi manylion ynglŷn â thywydd enbyd yn y gaeaf a gadwai blant i ffwrdd o'r ysgol, ystafelloedd dosbarth oer iawn a'r clefydau a ddeuai yn sgil tlodi ac a ysgubai drwy'r ysgol yn rheolaidd.
Cedwid y plant adref o'r ysgol yn fynych i helpu gyda gwaith y fferm ond yr oedd hefyd adroddiadau ynglŷn â dyddiau i ffwrdd ar gyfer ffeiriau cyflogi, cymanfaoedd a hyd yn oed yn oed dathlu penblwydd William Basil Loxdale, etifedd Gwynfryn yn cyrraedd llawn oed.

William Basil Loxdale Jones adnabwyd bob amser fel "Basil"

Roedd y digwyddiad hwn yn gwarantu dau ddiwrnod o wyliau, un am y penblwydd ei hun ac un arall am y dathlu cysylltiedig.

Y tro nesaf yr ymddengys y gŵr ifanc hwn, a adnabyddid bob amser fel 'Basil', ymddengys yn y dyddlyfr ar gyfer 30 Ionawr 1918 pan gauwyd yr ysgol fel y gallai disgyblion fod yn bresennol yn ei gyfarfod coffa yn eglwys Llangynfelyn.

Ymddengys Basil Jones yn fy hanes teuluol mewn modd trist braidd. Yn ystod ei blynyddoedd olaf roedd fy modryb yn argyhoeddiedig fod ganddi 'ddealltwriaeth' gyda Basil ac y byddent wedi priodi petai wedi goroesi'r Rhyfer Mawr. Byddai'n fynych yn dweud iddi gael profiad o'i weld yn marw ar faes y gâd.

Fel plentyn meddyliwn bod hyn yn hudolus ramantaidd. Yr wyf yn awr yn sicr mai ffantasi oedd hyn oherwydd er bod ei rhieni yn uchel eu parch gan eu cyflogwyr, gweision oeddynt ac nid oedd yn hawdd croesi dosbarth ond yng ngoleuni ei farwolaeth truenus o gynnar a'i bywyd unig ac anodd yn ddiweddarach gobeithio iddynt fflyrtio ryw ychydig ar y ffordd. Yn anffodus ni ddylid edrych yn rhy fanwl ar weledigaeth fy hen fodryb.

Pan ddarganfum ysgrif goffa i Basil Jones yn y *Cambrian News* ar gyfer 1918 sylwais ei fod yn Wyliwr Awyrennau gyda'r Llynges Frenhinol a bu foddi tra ar batrol, gan wneud 'yr Aberth Fwyaf', fel y dywed dyddlyfr

Flight Observer W. BASIL JONES, R.N., of Gwyntryn, Taliesin, Cardiganshire, who gave his life for his country on 7th January, 1918, was the son of the late Bishop of St. David's. He volunteered in September, 1914, and obtained a commission in the Royal Marines, and went immediately to France. In May, 1915, he became an observer in the Royal Naval Air Service and, the following August, he went to the Dardanelles. He was mentioned in despatches for his services there. He remained in the Eastern Mediterranean Squadron until the end of 1916. Early in March, 1917, he went to Italy. He was again mentioned in despatches.

Llancynfelyn. Ymddengys bod y cyfuniad hanfodol o ddŵr ac awyren wedi methu ag ymddangos yng ngweledigaeth fy modryb. Gallwn wrth gwrs fod wedi darganfod llawer o hyn drwy ddulliau eraill mwy confensiynol ond buaswn wedi colli allan ar nifer o bleserau mawr ymchwilio i hanes teuluol megis wrth ddarllen hen bapurau newydd a chael ymdeimlad o gymuned yn ymdopi i ddelio â trasiedi enbyd y Rhyfel Byd Cyntaf. Neu ymgolli ym mywyd beunyddiol ysgol fechan yn y wlad a chael syniad o gymuned ehangach yn ei brwydr gyson yn erbyn tlodi ac afiechyd. Teimlaf ei bod yn drueni bod ymchwilwyr yn olrhain ffeithiau moel geni, priodi a marwolaeth heb gymryd yr amser i archwilio'r byd yr oedd eu cyndadau yn byw a gweithio ynddo. Os ydym yn ceisio dod o hyd i'n cyndadau er mwyn darganfod rhywbeth ynglŷn â ni ein hunain yna dylem hefyd ddeall rhywbeth am y cymunedau a'u ffurfiodd, a ninnau hefyd yn y pen draw.

Gwyneth Roberts